# Ysgol Betws yn Rhos







## Llwyddo gyda'n gilydd!

Beth sy'n bwysig i Ysgol Betws yn Rhos?

Beth sydd gan Ysgol Betws yn Rhos i'w gynnig i mi?

Sut beth ydy bod yn blentyn yn ysgol Betws yn Rhos?

## Ein gweledigaeth

Yn Ysgol Betws yn Rhos, ein nod yw creu awyrgylch hapus a chyfeillgar o fewn yr ysgol, meithrin gonestrwydd, diffuantrwydd, parch a hunan barch, ble bynnag bydd pawb yn cyd weithio'n hyderus a gofalus gyda'i gilydd. Credwn mewn rhoi canmoliaeth a theilyngdod pan fo haeddiant a gwerthfawrogwn gyfraniad pob unigolyn. Rhoir cefnogaeth cyfartal i bob unigolyn. Fel hyn, byddwn yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol pob plentyn.

Mae ein gweledigaeth ni yn Ysgol Betws yn Rhos yn cydfynd a'n arwyddair sef 'Llwyddo gyda'n gilydd' i wireddu'r pedwar diben ar gyfer Cwricwlwm i Gymru. Rydym wedi symleiddio'r datganiadau i'r disgyblion fedru eu defnyddio a deall sut mae llwyddo hyd eithaf eu gallu beth bynnag fo eu dyheadau a'u cryfderau a hynny mewn amgylchfyd diogel sy'n parchu pawb'

Mae llais a lles pob unigolyn yn holl bwysig yma ac yn rhan flaenllaw o ethos yr ysgol. Datblygwn y sgiliau sydd eu hangen ar bob dysgwr i allu gofalu amdanynt eu hunain, i gadw'n saff, i wynebu a goresgyn heriau bywyd, ac i fwynhau dysgu.

Mae Betws yn Rhos yn bentref mewn ardal gwledig naturiol Gymraeg sy'n llawn hanes ac rydym am ddathlu hynny ymhob rhan o'n gwaith. Yn ogystal rydym am ehangu gorwelion pob dysgwr i allu gwerthfawrogi amrywiaeth a rhyfeddod y byd a'u lle nhw fel unigolion ynddo drwy ein gweledigaeth a'n gwerthoedd cristnogol ar gyfer Ysgol Eglwysig Gymreig.

## Beth ydy 'Cwricwlwm' yn Ysgol Betws yn Rhos?

Cwricwlwm ysgol ydy popeth y mae dysgwr yn ei brofi yn yr ysgol. Wrth ddylunio cwricwlwm Ysgol Betws yn Rhos mae anghenion ein dysgwyr yn flaenllaw yn ein meddyliau. Rydym yn rhoi ystyriaeth fanwl i **Beth** rydyn ni'n ei addysgu, **Sut** rydyn ni'n ei addysgu a hefyd **Pam** rydyn ni'n ei addysgu.

| Ein gwerthoedd | Ein hymddygiad |
| --- | --- |
| **Parch ac ymddiriedaeth** | Mae pawb yn yr ysgol yn unigryw- yn ddysgwyr a theuluoedd, yn staff a rhanddeiliaid. Rydym yn onest ac agored wrth ein gwaith a pharchwn farn a theimladau pawb. |
| **Lles a Gofal** | Rydym yn dangos empathi, gofal a chonsyrn am les pawb. Rydym yn gwrando ac yn gweithredu i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel a bod gan bawb lais sy'n cael ei glywed. |
| **Hapusrwydd a Mwynhad** | Mae ethos pob dosbarth a phrofiadau dysgu yn ysbrydoli ein dysgwyr. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn mwynhau profiadau a datblygu cymhelliant wrth ddysgu . |
| **Gwytnwch a hyder** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol yn ddysgwr a staff i fod yn hyderus a balch o'n hunain, i groesawu her ac i ddyfalbarhau i gyrraedd ein nod. |
| **Cymru a Chymreictod** | Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ymhob rhan o'n gwaith. |
| **Cymuned a Chynefin** | Rydym yn chwarae rhan llawn ym mywyd ein cymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan llawn ym mywyd yr ysgol. Rydym yn dathlu a gwarchod ein cynefin. |
| **Mentro ac Arloesi** | Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol, yn ddysgwyr a staff, i fentro'n hyderus, i feddwl yn greadigol a thorri tir newydd ac i ddysgu o'n llwyddiannau a'n methiannau. |
| **Cefnogi a Chydweithio** | O fewn ein dosbarthiadau, ein hysgol ac ar draws ein clwstwr o ysgolion, rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd i ddatblygu a dysgu'n barhaus. |






# Mae gennym 12 Werth Cristnogol:

- Haelioni
- Dewrder
- Cyfeillgarwch
- Parch
- Ymddiriedaeth
- Cyfiawnder
- Trugaredd
- Maddeuant
- Diolchgarwch
- Dyfalbarhad
- Gwasanaeth
- Gonestrwydd






**4 Diben Cwricwlwm i Gymru ydy craidd a chalon Cwricwlwm Ysgol Betws yn Rhos.**

Maen nhw’n sail i bob agwedd o'n dylunio cwricwlwm, ein cynllunio a’n addysgu. Mae ein gweledigaeth a’n gwerthoedd fel ysgol yn cefnogi’r 4 diben a chrynhown isod yr hyn maent yn ei olygu i ni. Bydd ein profiadau dysgu a’n dulliau addysgu yn anelu at wireddu’r isod bob amser.

| Dysgwyr uchelgeisiol, galluog... sy’n barod i ddysgu gydol eu bywydau, ac sy’n : | Cyfranwyr mentrus, creadigol ... sy’n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, ac sy’n: | Dinasyddion egwyddorol, gwybodus ...sy’n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a’r byd, ac sy’n: | Unigolion iach, hyderus... sy’n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, ac sy’n datblygu: |
|---|---|---|---|
| • gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain<br>• mwynhau her a datrys problemau<br>• datblygu gwybodaeth a sgiliau a’u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau<br>• gallu trafod eu dysgu yn hyderus<br>• gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a’r Saesneg,<br>• gallu defnyddio mathemateg a rhif a thechnolegau digidol yn effeithiol | • meddwl yn greadigol<br>• cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a’u sgiliau i greu, i addasu ac i datrys problemau<br>• adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt<br>• hyderus i fentro<br>• arwain a chydweithio mewn timau<br>• mynegi eu syniadau a’u hemosiynau mewn gwahanol ffyrdd<br>• defnyddio eu hegni a’u sgiliau er budd eraill | • ffurfio barn a thrafod materion ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br>• deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol<br>• deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd<br>• gwybod am eu diwylliant a’u cymuned,<br>• gwybod am gymdeithas a’r byd presennol ac yn y gorffennol<br>• parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol<br>• gweld bod ganddynt rôl i’w chwarae i sicrhau cynaladwyedd y blaned | • iechyd a diogelwch corfforol a meddyliol,<br>• cydberthnasau yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth<br>• gwerthoedd personol<br>• sgiliau ac annibyniaeth i ddelio gyda bywyd bob dydd<br>• y gallu i wynebu a goresgyn heriau |









# Ysgol Betws yn Rhos- Cyd-destun

- Ysgol gynradd gwledig yw Ysgol Betws yn Rhos sydd yn Ysgol Eglwysig Wirfoddol Yng Nghymru.
- Mae Ysgol Betws yn Rhos yn rhan o Glwstwr y Creuddyn sy’n cydweithio'n agos er mwyn datblygu Cwricwlwm Cyffrous Cymreig i ddysgwyr yr ardal.
- Mae’r Ysgol yn gadarnle i ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn y gymuned.
- Rydym yn ymfalchio yn y ffaith fod diwydiannau a canolfannau allweddol y pentref yn ein cefnogi gyda’n profiadau dysgu a gynigir sef clwb chwaraeon ar ol Ysgol yn cael ei redeg gan perchennog y gym lleol, clwb golff, siop leol, ty bwyta, Yr Eglwys a ffermydd lleol i gyd yn gwneud cyfraniad hael tuag at ein cwricwlwm.
- Pan ofynnwyd i’r dysgwyr, rhieni, Llywodraethwyr a staff i ddewis gair i ddisgrifio beth mae’r Ysgol yn ei olygu i chi dyma ddywedwyd:

















# Cwricwlwm Ysgol Betws yn Rhos



. Wrth ddylunio cwricwlwm Ysgol Betws yn Rhos mae anghenion ein dysgwyr yn flaenllaw yn ein meddyliau. Rydym yn rhoi ystyriaeth fanwl i **Beth** rydyn ni’n ei addysgu, **Sut** rydyn ni'n ei addysgu a hefyd **Pam** rydyn ni'n ei addysgu.

Bydd ein cwricwlwm yn cwmpasu’r pedwar diben, gyda’r profiadau dysgu yn helpu ein dysgwyr i ddatblygu’r sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i ddysgu’n llwyddiannus ar draws y MDaPh sy’n cynnwys y sgiliau trawsgwricilaidd a chyfannol ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Dyluniwyd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgol yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn seiliedig ar Ganllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yr Eglwys yng Nghymru ac yn rhoi ystyriaeth i’r Maes Llafur Cytunedig.

# Y pethau nad ydy Ysgol Betws yn Rhos yn ildio arnynt

Yn Ysgol Betws yn Rhos ein nod yw cyfoethogi ac ehangu ein cwricwlwm drwy gyfleoedd a phrofiadau dysgu yn ein hardal leol a thu hwnt. Mae gan ein dysgwyr hawl i amrywiaeth o elfennau na allwn ildio arnynt sy’n cyfoethogi eu datblygiad personol.

**Prosiecatau Ysgol Gyfan a Chymuned** – Crefft i’r Eglwys, Cystadlu yn Sioe Flodau Betws, Eisteddfod Betws yn Rhos, cefnogi diwrnodau cenedlaethol.

**Iechyd a Lles** – Dysgu yn yr awyr agored, Milltir y dydd, Pum ffordd at Les, Amseroedd chwarae hunan ddewisol o offer chwarae( Active Play)

**Ysgol iach** – Rydym yn ymfalchio ein bod wedi derbyn y Wobr Ansawdd Cenedlaethol Ysgolion Iach

**Ysgol Eco –** Mae’r Cyngor eco yn weithgar trwy’r Ysgol i gadw ein statws o Wobr Platinwm.

**Cymreictod** – Parhau gyda’n statws Gwobr Aur y Siarter Iaith a cefnogi gweithgareddau’r Urdd

**Ysgol sy’n dod yn fwy wybodus am drawma** – Staff wedi’i hyfforddi ar gyfer hyn a dilyn prosiectau Tyfu trwy’r tymhorau, ELSA a Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

**Meddylfryd o dwf-** Mae’r pwerau dysgu a grewyd gan y disgyblion yn arf bwerus i ddysgwyr gydnabod eu llwyddiannau.

















**Addysgu**

Mae **addysgu ardderchog** yn hanfodol os ydym am wireddu'r 4 diben, ein gweledigaeth fel ysgol a gofynion Fframwaith y Cwricwlwm. Mae sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf yn greiddiol i ni yn Ysgol Betws yn Rhos i ddysgwyr ac i ymarferwyr. Mae cysondeb ethos ymhob dosbarth ar draws yr ysgol yn hollbwysig i ni er mwyn sicrhau amgylchfyd diogel a symbylus i'n dysgwyr allu mentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.

Rydym yn ystyried, yn rhannu ac yn datblygu ein dulliau addysgu'n barhaus, a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r **12 egwyddor addysgegol** a nodir yn Fframwaith y Cwricwlwm ac ar y dulliau yr ydym ni'n eu canfod yn llwyddiannus yn yr ysgol hon.




| Y 12 Egwyddor Addysgegol | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben. | 2. Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus.<br>Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy. | 3. Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu. | 4. Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol. |
| 5. Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol.<br>Ennyn diddordeb. | 6.Creu cyd-destunau dilys. | 7. Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol. | 8. Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu. |
| 9. Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. | 10. Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol. | 11. Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol. | 12. Hybu cydweithio. |

Wrth esblygu Cwricwlwm i Gymru yn Ysgol Betws yn Rhos mae arbrofi ac arloesi'n hyderus fel ymarferwyr yn bwysig iawn i ni a byddwn yn cydweithio'n agos o fewn yr ysgol ac ar draws y clwstwr er mwyn sicrhau profiadau dysgu a'r addysgu gorau y gallwn ei gynnig i'n dysgwyr.


Mae'r ysgol yn sefydliad sy'n dysgu. Golyga hyn ein bod yn ymchwilio ac yn dysgu am addysgu effeithiol yn barhaus ac yn rhoi bri ar ddysgu proffesiynol ac ymarfer wedi ei selio ar ymchwil er mwyn datblygu a gwella ein sgiliau addysgu.

## Cynllunio

Wrth gynllunio yn Ysgol Betws yn Rhos rhoddir pwyslais ar gynnig **profiadau dysgu cyfoethog, eang a dwfn** o ansawdd uchel i'n dysgwyr sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u datblygiad. Golyga hyn roi digon o amser i ddysgwyr feithrin, ymarfer a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwreiddio eu dysgu a pheidio â brysio drwy waith er mwyn 'cyflawni cynnwys'. Mae hyn yn gosod seiliau cadarn ar gyfer camau nesaf eu dysgu ac yn golygu eu bod adeiladu ar eu dysgu a'u cynnydd drwy gydol eu hamser yma.

Rydym hefyd yn cynllunio i sicrhau bod ein profiadau dysgu a'n haddysgu yn datblygu'r **sgiliau cyfannol** isod sydd eu hangen ar ein dysgwyr i gyflawni'r 4 diben**.**

| | |
|---|---|
| **Creadigrwydd ac arloesi** | • Ymholi, archwilio, bod yn chwilfrydig, creu a rhannu syniadau<br>• Cysylltu profiadau, gwybodaeth a sgiliau |
| **Meddwl yn feirniadol a datrys problemau** | • Cwestiynu a gwerthuso gwybodaeth a sefyllfaoedd<br>• Adnabod problemau a chynnig gwahanol ddatrysiadau<br>• Gwneud penderfyniadau yn wrthrychol |
| **Effeithiolrwydd personol** | • Datblygu deallusrwydd emosiynol, hyder ac annibyniaeth<br>• Gwerthuso a thrafod eu dysgu presennol a'u camau nesaf<br>• Gweld gwerth a dathlu camgymeriadau<br>• Trafod ac ystyried eu barn a'u gwerthoedd a'u goblygiadau egwyddorol, cymdeithasol, diwylliannol |
| **Cynllunio a threfnu** | • Gosod nodau ar gyfer eu dysgu a thrafod a myfyrio ar eu cynnydd |











## Cysyniadau ac Elfennau gorfodol y Cwricwlwm

Bydd yr ysgol yn rhoi sylw manwl i elfennau gorfodol y cwricwlwm wrth gynllunio. Mae polisïau'r ysgol ar gyfer y meysydd hyn yn manylu ar ein bwriadau.

- Datblygiad trawsgwricwlaidd sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol
- Addysg, Cydberthynas a rhywioldeb
- Crefydd, gwerthoedd a moeseg
- Cymraeg
- Saesneg

Cymraeg fydd iaith dydd i ddydd yr ysgol. Rydym yn ymgorffori egwyddorion y Siarter Iaith i'r cwricwlwm cyflawn ac ymhob agwedd o'n gwaith.

Addysgir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 7 oed. Cyflwynir Saesneg i ddysgwyr o 7 oed ymlaen. Addysgir 50-70% yn y Gymraeg o 8-11 oed. Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn hyderus ddwyieithog yn gadael yr ysgol.







## Agweddau Statudol

Mae'r ysgol wedi rhoi ystyriaeth i'r agweddau statudol canlynol sydd o fewn Fframwaith Cwricwlwm i Gymru wrth ddylunio ein cwricwlwm:

- Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD)
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

## Cynllunio

Defnyddir cyfuniad o ddulliau o gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgol hon yn unol â'r gofyn yn unol ag oedran y dysgwyr a chyd destun y dysgu.
Bydd elfennau o gynllunio ar gyfer addysgu uniongyrchol, disgyblaethol ac amlddisgyblaethol yn digwydd er mwyn dysgu ac ymarfer sgiliau penodol *e.e. sgil mathemateg, ffoneg*

Defnyddir elfennau rhyngddisgyblaethol ac integredig er mwyn ymarfer sgiliau ymhellach a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd- destunau trawsgwricwlaidd. E.*e. tynnu elfennau o Fathemateg, Iaith, Cymhwysedd Digidol a Dyniaethau at ei gilydd wrth ymchwilio i ac i ysgrifennu adroddiad yn cymharu tywydd gwahanol wledydd.*

Cynllunnir y rhan fwyaf o brofiadau dysgu'r ysgol hon ar sail **Cwestiwn Mawr** *( e.e. Sut mae'r tir yn cael ei ddefnyddio yn ein milltir sgwar?)* neu **Thema penodol** ( e.*e. Ffermio, Cymru.* Mae llais y plentyn, eu teuluoedd a'r gymuned yn bwysig i ni ac mae hyblygrwydd yn ein cynllunio i ddilyn trywydd gwahanol/lleol/ byd eang fel y bydd cyfle'n codi er mwyn gwneud ein profiadau dysgu yn berthnasol, diddorol ac amserol. Mae'r isod yn elfennau holl bwysig y byddwn yn ymgorffori'n barhaus yn ein cynlluniau.

**Iechyd a Lles**
Credwn yn gryf yn yr ysgol hon bod sicrhau a chynnal parodrwydd dysgwyr i ddysgu yn greiddiol. I'r perwyl hwn croesawn y pwyslais cyfartal ar bob Maes Dysgu a Phrofiad a'u bod yn cynnwys Iechyd a Lles.

Bydd yr ysgol yn parhau i ddatblygu ei harbenigedd yn y Maes hwn - fel 'Ysgol sy'n Annog' ac 'Ysgol sy'n wybodus am drawma' a defnydd o raglenni megis 'Elsa' 'Tyfu trwy'r Tymhorau' . Rydym hefyd yn esblygu hinsawdd dosbarthiadau, Meddylfryd o Dwf a Phwerau Dysgu yn barhaus. Bydd gwaith yr ysgol gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol hefyd yn cefnogi hyn

**Teuluoedd a Chymuned**
Mae cydweithio gyda rhieni/ gofalwyr a'r gymuned yn bwysig iawn i ni yma yn Ysgol Betws yn Rhos drwy wahodd ffermwyr a milfeddyg lleol i mewn.
Bydd yr ysgol yn parhau i ddatblygu'r berthynas cryf rhwng yr Eglwys a'r Ysgol i gefnogi gwahanol Wyliau yn ystod y flwyddyn.







**Sgiliau Trawsgwricwlaidd**
Mae Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob Maes Dysgu a Phrofiad. Rydym yn llawn sylweddoli pwysigrwydd sicrhau cymhwysedd digidol ein dysgwyr er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd a gwaith yn y dyfodol.

Rydym felly yn rhoi sylw manwl i hyn wrth gynllunio profiadau dysgu ac wrth gynllunio ar gyfer cynnydd y dysgwyr.

Byddwn yn cynllunio digonedd o gyfleoedd iddynt gaffael, ymarfer a chymhwyso'r sgiliau pwysig hyn fel eu bod yn eu gwreiddio.

**Mwynhau dysgu**
Y peth pwysicaf i ni wrth gynllunio yw sicrhau bod y dysgwyr yn mwynhau ac yn cael hwyl wrth ddysgu.
Gweithiwn yn galed yma felly i sicrhau :
- bod y profiadau dysgu yn ddiddorol a symbylus
- bod ein haddysgu a'n perthynas waith gyda'n dysgwyr yn ennyn brwdfrydedd a mwynhad.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi rhyddid i ni gynllunio ein cynnwys ein hunain yn seiliedig ar:


- 6 Maes Dysgu a Phrofiad a’u Datganiadau o’r Hyn sy’n bwysig
- Datblygu Sgiliau Trawsgwricwlaidd
- 5 o Themâu Trawsbynciol

## Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

| Y Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles | Dyniaethau | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
| *Y disgyblaethau sy’n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Celf, Cerddoriaeth, Dawns, Drama , Ffilm a Chyfryngau Digidol* | *Y disgyblaethau sy’n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Iechyd a datblygiad y corff*<br>*Iechyd meddwl*<br>*Lles emosiynol a chymdeithasol* | *Y disgyblaethau sy’n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Daearyddiaeth, Hanes, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg,*<br>*Hefyd elfennau o: Astudiaethau Busnes, Astudiaethau Cymdeithasol, Economeg, Athroniaeth* | *Yn cynnwys 5 hyfedr rhyngddibynol:*<br>*1.Dealltwriaeth gysyniadol*<br>*2.Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau*<br>*3.Rhuglder*<br>*4.Rhesymu rhesymegol*<br>*5.Cymhwysedd strategol* | *Y disgyblaethau sy’n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Cymraeg, Saesneg, Ieithoedd Rhyngwladol, Llenyddiaeth* | *Y disgyblaethau sy’n cael eu datblygu yn yr ysgol hon:*<br><br>*Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Cyfrifiadurol, Dylunio a Thechnoleg* |

**Sgiliau Trawsgwricwlaidd**

*Byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu’r sgiliau trawsgwricwlaidd isod oddi fewn ac ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad gan wneud defnydd o'r fframweithiau diwygiedig cenedlaethol ar eu cyfer*




| Llythrennedd | Rhifedd | Cymhwysedd Digidol |
|---|---|---|

**Themâu Trawsbynciol**

*Byddwn yn cynnwys ac yn ymestyn y themâu isod ar draws y cwricwlwm*

| Addysg cydberthynas a rhywioldeb | Addysg Hawliau dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r plentyn | Amrywiaeth | Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith | Cyd- destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol |
|---|---|---|---|---|

Bydd y **Datganiadau o’r Hyn Sy’n Bwysig** ar gyfer bob Maes yn sail i’n cynllunio ar gyfer cynnydd, dyfnder ac ehangder sgiliau a gwybodaeth ac ar gyfer cynnydd dysgwyr.

# Datganiadau Yr Hyn sy’n bwysig ar gyfer y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

| Y Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles | Dyniaethau | Mathemateg a Rhifedd | Ieithoedd, Llythrennedd & Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae archwilio’r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae’n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol | Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes | Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau | Mae ieithoedd yn ein cysylltu â’n gilydd | Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau |
| Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol | Mae’r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a’n lles emosiynol | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd | Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol | Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch | Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas |
| Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg | Mae’r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill | Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi’i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol | Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol | Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu | Mae’r byd o’n cwmpas yn llawn pethau byw sy’n dibynnu ar ei gilydd i oroesi |
| | Mae’r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a’n lles | Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl | Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae’r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus | Mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd | Mae mater, a’r ffordd y mae’n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau |
| | Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles | Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol | | | Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd<br>Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i’n byd digidol |
| | | | | | Mae cyfrifiaduraeth yn sail i’n byd digidol |

# Asesu a Chynnydd

Rydym yn defnyddio'r **Disgrifiadau Dysgu** ar gyfer bob **Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig** ar gyfer asesu a chynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr. Mae'r rhain yn cyfateb **yn fras** i ddisgwyliadau ar gyfer oedrannau 5, 8, 11, 14 a 16 ac yn cynnig arweiniad ar sut y dylai dysgwyr ddangos cynnydd o fewn pob Datganiad.
Ni ddefnyddir y rhain fel rhestr o flychau i'w ticio, ond yn hytrach fel arfau i'w hystyried wrth gynllunio ar gyfer cynnydd ein dysgwyr.

Yn ychwanegol at hyn, **mae egwyddorion cynnydd** sy'n sail i'n cynllunio ar gyfer cynnydd dysgwyr ar draws y meysydd dros amser**.**




| Egwyddorion Cynnydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol | Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd | Mireinio a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau | Creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau | Cynyddu effeithiolrwydd |



Mae Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i ni sicrhau mai cynnydd dysgwyr yw prif bwrpas Asesu ac nid ymarfer atebolrwydd. I'r perwyl hyn, rydym ni yn Ysgol Betws yn Rhos yn rhoi bri ar ddatblygu darlun cyflawn o ddatblygiad pob dysgwr, yn cynnwys eu lles, eu parodrwydd ac awydd i ddysgu yn ogystal â datblygiad eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Rhown bwyslais ar bwysigrwydd sicrhau cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ymarferwyr yr ysgol a'r clwstwr ac ar drafodaethau rheolaidd gyda rheini a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant.

Bydd yr ysgol yn cyflawni **Dibenion Asesu 'r Cwricwlwm** fel a ganlyn:

**1.Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**
Mae asesu ffurfiannol o ansawdd cyson uchel ar lawr dosbarth o ddydd i ddydd yn rhoi darlun clir o gyrhaeddiad a chamau nesaf i ddysgwyr ac ymarferwyr.

**2. Nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser**
**3. Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion**
Neilltuir cyfnodau penodol a rheolaidd i ymarferwyr drafod cynnydd ac anghenion dysgwyr a grwpiau penodol o ddysgwyr drwy ddeialog broffesiynol er mwyn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach. Bydd trafodaethau o'r fath hefyd yn hwyluso ac yn hyrwyddo unrhyw drosglwyddo a phontio rhwng dosbarthiadau ac ysgolion.
Gwneir defnydd ffurfiannol o brofion cenedlaethol a phrofion safonedig e.e. PASS a CAT4 yn ôl y galw yn y trafodaethau hyn.
Cynhelir trafodaethau rheolaidd gyda'r dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr i drafod cynnydd gan gynnwys asiantaethau allanol pan fo angen.